# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 7 Rhagfyr 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

6 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

7 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae pob adran yn rhoi cyfrif am gostau llety dros nos, costau teithio, costau cynhaliaeth a mân dreuliau Gweinidogion yn eu gweithdrefnau cyfrifo adrannol. (WAQ56832)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Cesglir y wybodaeth am wariant a geisir ar gyfer pob aelod o Staff a phob Gweinidog yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru gan ddefnyddio un pennawd cost a elwir yn deithio a chynhaliaeth. Nid yw'r wybodaeth yn cael ei rhannu i'r isgategorïau a geisir ar hyn o bryd.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa hyfforddiant pellach a roddir i athrawon newydd gymhwyso o bob cwr o'r DU sy'n dymuno dysgu yng Nghymru, a chofio'r systemau addysg gwahanol sy'n bodoli, yn enwedig ar lefel ysgolion cynradd. (WAQ56823)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Mae pob athro newydd gymhwyso (ANG) sy'n cymryd swydd addysgu mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir yng Nghymru yn cael cyfnod Sefydlu statudol, ni waeth ble y gwnaeth gwblhau ei hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA). Mae rhaglen sefydlu yn rhoi cymorth wedi'i dargedu i ANG ac yn adeiladu ar y wybodaeth a'r sgiliau a feithrinwyd a'r hyn a gyflawnwyd yn ystod HCA i'w galluogi i gyrraedd y Safon Diwedd Sefydlu. Mae ANG yn cael cymorth gan Diwtor Sefydlu ac mae eu hamserlen 10% yn llai. Mae hyn yn eu galluogi i ddilyn rhaglen o weithgareddau sydd wedi'i theilwra i ddiwallu eu hanghenion unigol tra'n cael eu cyfarwyddo a'u mentora gan athro profiadol.

Disgwylir i unrhyw ysgol sy'n penodi ANG a gwblhaodd ei hyfforddiant cychwynnol athrawon y tu allan i Gymru sicrhau ei fod yn ymgyfarwyddo â gofynion cyffredin Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru a'i fod yn deall yr arfer a'r persbectif addysgol ehangach yng Nghymru, fel rhan o'i raglen sefydlu.

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Beth yw cyfanswm cost darparu hyfforddiant i athrawon newydd gymhwyso o'r tu allan i Gymru sy'n dymuno addysgu yng Nghymru. (WAQ56824)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Dim ond pan fydd athro newydd gymhwyso (ANG) wedi dechrau yn ei swydd y caiff arian ar gyfer datblygiad proffesiynol ANG ei ryddhau. Mae pob ANG sy'n wladolyn y DU sy'n cymryd swydd mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir yng Nghymru yn cael cyfnod sefydlu a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ni waeth ble yn y DU y cwblhaodd ei hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA). Mae gan ysgolion hawl i gael £3,700 fesul athro newydd gymhwyso bob blwyddyn i sicrhau bod yr athro yn cael 10% o amser digyswllt statudol a chymorth tiwtor sefydlu.

Mae CyngACC yn cyfeirio'r arian hwn at ysgolion sy'n cyflogi ANG a dengys y tabl isod[i] faint o arian Sefydlu a ryddhawyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf ar gyfer athrawon a hyfforddwyd yng Nghymru, athrawon a hyfforddwyd y tu allan i Gymru ac athrawon a ddilynodd llwybr i addysgu sy'n seiliedig ar gyflogaeth.

| Blwyddyn Ariannol | Arian a ryddhawyd ar gyfer athrawon a hyfforddwyd mewn sefydliad HCA yng Nghymru | Arian a ryddhawyd ar gyfer athrawon a hyfforddwyd mewn sefydliad HCA y tu allan i Gymru (ond yn y DU) | Athrawon a dilynodd lwybr i addysgu sy’n seiliedig ar gyflogaeth ar waith mewn gwlad anhysbys | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2006/2007 | £1,085,702.03 | £138,669.70 | £58,960.04 | £1,283,331.77 |
| 2007/2008 | £4,026,355.26 | £465,221.05 | £213,963.56 | £4,705,539.87 |
| 2008/2009 | £4,011,307.22 | £409,466.27 | £211,458.67 | £4,632,232.16 |
| 2009/2010 | £3,648,011.66 | £446,219.99 | £173,900.04 | £4,268,131.69 |
| 2010/2011 (hyd yma) | £2,208,047.16 | £267,386.64 | £110,506.69 | £2,585,940.49 |
| Cyfanswm | £14,979,423.33 | £1,726,963.65 | £768,789.00 | £17,475,175.98 |

Mae rhai athrawon sy'n wladolion yr AEE wedi'u heithrio rhag cyfnod sefydlu statudol os ydynt yn cymryd swydd addysgu yng Nghymru. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar y math o gwrs hyfforddi athrawon a gwblhawyd ganddynt ac mae angen ystyried pob achos yn unigol.

Some teachers who are nationals of the EEA are exempt from statutory induction if they take up a teaching post in Wales. However, this is dependent on the type of teacher training course that they have completed, and each case needs to be looked at on an individual basis.

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Faint o arian y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi’i wario ar ei pholisi ffioedd dysgu, bob blwyddyn, dros y pum mlynedd diwethaf. (WAQ56825)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Datganolwyd y system cyllid myfyrwyr i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 1 Ebrill 2006. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am gyflawni swyddogaethau cynorthwyo myfyrwyr yng Nghymru o'r hen Adran Addysg a Sgiliau, yn weithredol o 1 Medi 2006.
Dengys y tabl canlynol gyfanswm cost ffioedd dysgu amser llawn i Lywodraeth y Cynulliad ym mhob blwyddyn ariannol ers datganoli cymorth i fyfyrwyr.

| Arian parod - grantiau a dyfarndaliadau wedi'u targedu: | | | |
|---|---|---|---|
| Gwariant BA06-07 | Gwariant BA07-08 | Gwariant BA08-09 | Gwariant BA09-10 |
| 13,419,616 | 28,295,751 | 49,096,071 | 65,071,723 |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol - Benthyciadau a reolir gan Drysorlys EM: | | | |
| Gwariant BA06-07 | Gwariant BA07-08 | Gwariant BA08-09 | Gwariant BA09-10 |
| 15,354,800 | 40,257,710 | 58,129,630 | 73,851,094 |
| Heb fod yn arian parod - cymhorthdal gan y Llywodraeth ar gyfer benthyciadau myfyrwyr: | | | |
| Gwariant BA06-07 | Gwariant BA07-08 | Gwariant BA08-09 | Gwariant BA09-10 |
| 5,196,619 | 13,609,604 | 18,601,482 | 24,370,861 |

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion am gyfanswm nifer y disgyblion mewn addysg alwedigaethol yng Nghymru ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf, wedi'u dadansoddi fesul maes pwnc. (WAQ56826)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Ar gyfer ysgolion, dim ond pan fydd disgybl yn cofrestru ar gyfer arholiad y caiff gwybodaeth ei chasglu. Dim ond ar gyfer y tair blynedd diwethaf y mae data ar gyfer pynciau galwedigaethol ar gael yn ôl maes pwnc.

Dengys y tabl isod, ar gyfer disgyblion o unrhyw oedran a oedd yn yr ysgol rhwng 2008 a 2010, nifer y cofrestriadau ar gyfer arholiadau yn ôl maes pwnc. Mae'r maes pwnc fel y'i diffinnir gan y Cyngor Sgiliau Sector. Caiff disgybl sy'n cofrestru ar gyfer arholiad mewn mwy nag un maes pwnc ei gyfrif fwy nag unwaith.

**Nifer y cofrestriadau, yn ôl maes pwnc galwedigaethol, 2008-2010 (a) (b)**

| | | | *Number of entries* |
|---|---|---|---|
| **Subject Area** | **2008** | **2009** | **2010** |
| Health, Public Services and Care | 4,237 | 4,853 | 5,929 |
| Science and Mathematics | 3,913 | 4,581 | 7,323 |
| Agriculture, Horticulture and Animal Care | 19 | 124 | 285 |
| Engineering and Manufacturing Technologies | 723 | 1,429 | 2,354 |
| Construction, Planning and the Built Environment | 268 | 743 | 1,007 |
| Information and Communication Technology | 2,640 | 3,933 | 5,457 |
| Retail and Commercial Enterprise | 2,183 | 2,738 | 3,450 |
| Leisure, Travel and Tourism | 2,545 | 3,665 | 4,426 |
| Arts, Media and Publishing | 1,110 | 1,755 | 2,583 |
| Languages, Literature and Culture | 0 | 11 | 35 |
| Education and Training | 3 | 231 | 387 |
| Preparation for Life and Work | 4 | 231 | 619 |
| Business, Administration and Law | 3,067 | 4,389 | 5,255 |
| **Total entries** | **20,712** | **28,683** | **39,110** |

Source: Welsh Examinations Database and Database of Approved Qualifications Wales

(a) Subject area as defined by the Sector Skills Council.
(b) The table counts entries and not pupils. So, a pupil who enters an examination in more than one subject area will be counted more than once.

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Beth yw cyfanswm nifer y disgyblion mewn addysg alwedigaethol yng Nghymru o'i gymharu â nifer y myfyrwyr sy'n astudio ar lefel academaidd. (WAQ56827)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Ar gyfer ysgolion, dim ond pan fydd disgybl yn cofrestru ar gyfer arholiad y caiff gwybodaeth ei chasglu. Dengys y tabl isod, ar gyfer disgyblion o unrhyw oedran a oedd yn yr ysgol yn 2010, y math o arholiad y cofrestrodd disgyblion ar ei gyfer

Disgyblion o unrhyw oedran mewn ysgolion yng Nghymru, yn ôl y math o arholiad y cofrestrwyd ar ei gyfer, 2010

| **Type of qualification** | **Number of pupils** | **Per cent of pupils** |
|---|---|---|
| Vocational Only | 2,749 | 2.4 |

| | | |
|---|---|---|
| General (academic) only | 85,856 | 75.3 |
| Both vocational and general | 25,350 | 22.2 |
| Total | 113,955 | 100.0 |
| | | Source: Welsh Examinations Database |

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**: Beth yw cyfanswm nifer y dysgwyr sy’n astudio ar lefel addysg bellach yng Nghymru, wedi’i ddadansoddi fesul awdurdod addysg lleol, ym mhob un o’r pum mlynedd diwethaf. (WAQ56828)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Cofrestrwyd 262,995 o ddysgwyr ar gwrs addysg bellach yng Nghymru yn 2008/09. Mae'r ffigur hwn yn cwmpasu pob cwrs (nad yw ar lefel AU) mewn Sefydliadau Addysg Bellach (SABau), darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith eraill, rhaglenni dysgu cymunedol awdurdodau lleol a chyrsiau AB mewn Sefydliadau Addysg Uwch (SAUau).

Dengys Tabl 1 drosodd ffigurau ar gyfer y pum mlynedd diwethaf, yn ôl yr awdurdod lleol lle mae'r disgybl yn byw.

Tabl 1: Dysgwyr a gofrestrwyd ar gyrsiau addysg bellach gyda SABau, darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith, rhaglenni dysgu cymunedol awdurdodau lleol a SAUau, yn ôl yr awdurdod lleol lle mae'r disgybl yn byw, rhwng 2004/05 a 2008/09

| | 2004/05 | 2005/06 | 2006/07 | 2007/08 | 2008/09 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 6,490 | 7,060 | 6,710 | 6,370 | 5,790 |
| Gwynedd | 12,040 | 13,100 | 11,670 | 11,930 | 11,800 |
| Conwy | 12,330 | 11,875 | 11,890 | 11,990 | 11,590 |
| Sir Ddinbych | 11,305 | 11,400 | 11,845 | 11,175 | 10,115 |
| Sir y Fflint | 14,630 | 15,020 | 15,125 | 12,745 | 11,420 |
| Wrecsam | 13,765 | 13,935 | 13,750 | 12,825 | 12,320 |
| Powys | 9,885 | 11,095 | 10,100 | 9,815 | 8,605 |
| Ceredigion | 5,835 | 6,205 | 5,900 | 5,735 | 5,290 |
| Sir Benfro | 13,810 | 14,445 | 13,735 | 11,505 | 11,715 |
| Sir Gaerfyrddin | 17,325 | 17,585 | 16,705 | 14,530 | 14,585 |
| Abertawe | 21,835 | 24,030 | 23,900 | 21,210 | 20,570 |
| Castell-nedd Port Talbot | 14,560 | 16,275 | 15,720 | 12,635 | 12,625 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 11,820 | 12,595 | 11,780 | 10,780 | 10,975 |
| Bro Morgannwg | 11,800 | 12,180 | 11,365 | 10,600 | 10,770 |
| Rhondda Cynon Taf | 19,410 | 20,225 | 19,835 | 18,740 | 18,310 |
| Merthyr Tudful | 5,225 | 5,195 | 5,385 | 5,125 | 5,210 |
| Caerffili | 18,020 | 18,035 | 17,325 | 16,345 | 15,175 |
| Blaenau Gwent | 6,705 | 7,105 | 6,925 | 6,350 | 6,175 |
| Torfaen | 9,225 | 9,635 | 9,320 | 9,150 | 8,710 |
| Sir Fynwy | 6,725 | 7,035 | 6,305 | 6,020 | 5,365 |
| Casnewydd | 11,990 | 12,435 | 12,145 | 11,355 | 10,975 |
| Caerdydd | 28,565 | 28,690 | 27,745 | 26,040 | 26,295 |
| Y tu allan i Gymru | 15,195 | 14,310 | 12,580 | 10,420 | 8,610 |
| Pawb | 298,485 | 309,470 | 297,750 | 273,380 | 262,995 |

Ffynhonnell: HESA a LLWR
Nodiadau

(a) Cymerwyd y ffigurau o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a Chofnod Myfyrwyr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch. Mae'n bosibl bod rhai dysgwyr wedi'u cyfrif ddwywaith ar draws y ddau gofnod hyn yn y ffigurau uchod.
(b) Talgrynwyd y ffigurau i'r 5 agosaf.Figures are rounded to the nearest 5.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr amserlen ar gyfer datblygu’r rheilffordd rhwng Gaer a Wrecsam. (WAQ56830)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Rwyf wedi rhoi arian i Network Rail gynnal astudiaeth dichonoldeb ar gyfer Prosiect Lleihau'r Amser Teithio rhwng Gogledd a De Cymru. Bydd hyn yn cynnwys gwelliannau i'r llwybr rheilffordd rhwng Caer a Wrecsam. Ar ôl cael yr adroddiad byddaf yn gwneud datganiad pellach ar amserlenni.

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i ehangu'r rheilffordd rhwng Wrecsam, Saltney a Thre-gwyr. (WAQ56831)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Mae Prosiect Lleihau'r Amser Teithio rhwng Gogledd a De Cymru yn ystyried opsiynau i ailddyblu rhan neu'r cyfan o'r rheilffordd untrac rhwng Cyffordd Gogledd Wrecsam a Chyffordd Saltney. Bydd prosiect gwella'r rheilffordd rhwng Tre-gŵyr a Chasllwchwr yn ailddyblu'r 5.5 milltir o reilffordd untrac i'r gorllewin o Abertawe.

Bydd y ddau brosiect yn darparu ar gyfer capasiti ychwanegol ac yn gwella amserau teithio.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa bryd y bydd mynediad priodol i’r anabl ar gael yng ngorsaf drenau Llandaf. (WAQ56833)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Er nad yw hygyrchedd rheilffyrdd yn fater datganoledig rwyf wedi cael nifer o sylwadau ynghylch Gorsaf Llandaf. Rwyf wedi ysgrifennu i'r Adran Drafnidiaeth i ofyn iddi sicrhau bod gwella hygyrchedd i'r orsaf yn flaenoriaeth o dan y rhaglen a ariennir gan Lywodraeth y DU.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pa fesurau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i gefnogi ymchwil i ddiabetes Math 1. (WAQ56829)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Drwy'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi'r ymchwil i'r cyflwr hwn mewn tair ffordd:

- Rydym yn ariannu Rhwydwaith Ymchwil Diabetes Cymru. Nod y Rhwydwaith yw cynyddu faint o ymchwil diabetes a wneir yng Nghymru ac ansawdd yr ymchwil honno. Mae cylch gwaith y Rhwydwaith yn cynnwys Diabetes Math 1 a Math 2.

• Mae Cynllun Ariannu Ymchwil y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn cynnig cyfleoedd ariannu agored a chystadleuol i ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.
• Rydym yn buddsoddi mewn amryw o gynlluniau ariannu yn y DU, fel y Rhaglen Asesu Technoleg Iechyd a'r Rhaglen Darparu a Threfnu Gwasanaethau. Mae'r cynlluniau hyn felly'n agored i bob ymchwilydd o Gymru, yn cynnwys y rheini sydd â diddordeb mewn Diabetes Math 1.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol*

**Rhodri Morgan (Gorllewin Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru ynghylch (a) eu huchafswm a aseswyd ar gyfer benthyca darbodus, a (b) lefel bresennol y benthyca darbodus. (WAQ56822)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Ceir gwybodaeth am (b), 'y lefel bresennol o fenthyca darbodus yn ôl awdurdod lleol', yn y tabl isod. Pennir lefelau benthyca darbodus ar sail ystod o ffactorau gan gynnwys y cyfryw faterion ag agwedd awdurdod tuag at risg; prosesau gwneud penderfyniadau gwleidyddol lleol a fydd yn dylanwadu ar lefelau treth gyngor a phrosesau gwneud penderfyniadau rheoli'r trysorlys.

Ni chesglir unrhyw wybodaeth am y 'terfyn uchaf a aseswyd'. Mae pob awdurdod lleol yn penderfynu ar ei lefel ei hun o fenthyca allanol - mae dwy lefel ar waith. Y "ffin weithredol" sy'n cynrychioli'r lefel darged o ddyled allanol ar unrhyw adeg benodol (sy'n cynnwys benthyca â chymorth cronedig a benthyca darbodus) a ffigur uwch, sef 'y terfyn awdurdodedig'. Mewn achosion lle yr eir y tu hwnt i'r terfyn awdurdodedig cyfeirir y mater at yr aelodau i sicrhau bod y sefyllfa yn cael ei rheoleiddio. Mae ffigurau ar gyfer pob un hefyd wedi'u cynnwys yn y tabl isod.

£ million

| | **Prudential borrowing** | | | **Operational boundary** | | | **Authorised limit** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Authority name** | **2010-11** | **2011-12** | **2012-13** | **2010-11** | **2011-12** | **2012-13** | **2010-11** | **2011-12** | **2012-13** |
| Isle of Anglesey | 4 | 4 | 4 | 110 | 110 | 110 | 115 | 115 | 115 |
| Gwynedd | 1 | 7 | 0 | 135 | 130 | 125 | 160 | 160 | 160 |
| Conwy | 5 | 10 | 10 | 207 | 214 | 217 | 217 | 224 | 227 |
| Denbighshire | 11 | 3 | 2 | 145 | 155 | 160 | 150 | 160 | 165 |
| Flintshire | 0 | 0 | 0 | 177 | 178 | 179 | 197 | 198 | 199 |
| Wrexham | 3 | 1 | 0 | 194 | 190 | 185 | 204 | 200 | 195 |
| Powys | 12 | 3 | 4 | 177 | 171 | 168 | 189 | 183 | 180 |
| Ceredigion | 0 | 0 | 1 | 103 | 107 | 112 | 109 | 113 | 118 |
| Pembrokeshire | 0 | 0 | 0 | 167 | 169 | 170 | 173 | 175 | 176 |
| Carmarthenshire | 30 | 23 | 28 | 330 | 360 | 390 | 364 | 397 | 430 |
| Swansea | 1 | 3 | 4 | 428 | 428 | 426 | 542 | 542 | 523 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Neath Port Talbot | 9 | 13 | 9 | 274 | 253 | 261 | 294 | 273 | 281 |
| Bridgend | 5 | 6 | 0 | 134 | 138 | 148 | 160 | 164 | 169 |
| Vale of Glamorgan | 0 | 0 | 4 | 146 | 152 | 161 | 161 | 167 | 176 |
| Rhondda Cynon Taf | 1 | 0 | 0 | 253 | 275 | 279 | 340 | 350 | 345 |
| Merthyr Tydfil | 2 | 2 | 2 | 63 | 69 | 69 | 66 | 72 | 72 |
| Caerphilly | 0 | 0 | 0 | 330 | 340 | 350 | 350 | 360 | 370 |
| Blaenau Gwent | 5 | 5 | 5 | 173 | 142 | 151 | 190 | 156 | 166 |
| Torfaen | 6 | 3 | 2 | 101 | 109 | 117 | 116 | 124 | 132 |
| Monmouthshire | 7 | 2 | 5 | 102 | 103 | 112 | 133 | 134 | 143 |
| Newport | 18 | 18 | 8 | 202 | 217 | 222 | 207 | 222 | 226 |
| Cardiff | 55 | 49 | 29 | 429 | 469 | 503 | 544 | 544 | 544 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyfed Powys Police Authority | 5 | 4 | 2 | 18 | 18 | 18 | 21 | 21 | 21 |
| Gwent Police Authority | 0 | 0 | 0 | 12 | 12 | 11 | 15 | 15 | 14 |
| North Wales Police Authority | 14 | 5 | 2 | 43 | 45 | 45 | 48 | 48 | 50 |
| South Wales Police Authority | 0 | 1 | 0 | 23 | 23 | 23 | 24 | 24 | 24 |
| Mid and West Wales Fire Authority | 6 | 3 | 2 | 18 | 21 | 22 | 20 | 22 | 23 |
| North Wales Fire Authority | 8 | 4 | 4 | 23 | 26 | 27 | 25 | 28 | 29 |
| South Wales Fire Authority | 8 | 7 | 7 | 45 | 50 | 54 | 46 | 51 | 55 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Brecon Beacons NPA | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Pembrokeshire Coast NPA | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 |
| Snowdonia NPA | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Total National Park Authorities | 0 | 0 | 0 | | | | | | |
| Total Unitary Authorities | 176 | 152 | 118 | | | | | | |
| Total Fire | 21 | 14 | 13 | | | | | | |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Authorities | | | | | | | | | |
| Total Police Authorities | 19 | 10 | 5 | | | | | | |
| Total Wales | 216 | 176 | 135 | | | | | | |

[i] *Ffynhonnell: Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru*